

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
5 Ebrill 2018 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Geraint Strello, Mirain Llwyd Owen, Ifor Dylan Williams, Wynn Roberts

Cadeirio: Erddyn Davies

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

Trafodaeth ar oryrru yn Llanfaglan, a gosod cyfyngiad cyflymder ar Lôn Pant, Llanfaglan

Croesawyd y SCCH Ashley Jones, y SCCH Sioned Williams, a Dylan Wynn Jones, Rheolwr Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod

Trafodwyd yn benodol oryrru yn Llanfaglan, a'r angen i osod cyfyngiad cyflymder ar Lôn Pant yn Llanfaglan.

Eglurodd Dylan Wynn Jones mai Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Priffyrdd a thawelu traffig. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y Canllawiau y mae angen iddyn nhw eu dilyn. Mater i'r Heddlu yw cosbi a gorfodi troseddau.

Prif ystyriaeth Cyngor Gwynedd cyn gosod cyfyngiad cyflymder yw tystiolaeth e.e. hanes damweiniau a'r cyflymder cyfartalog dros unrhyw ddarn o ffordd.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn dweud fod angen goleuadau stryd a thai yn weddol agos i'w gilydd cyn bod cyflymder o 30mya yn cael ei osod. Dyna pam fod y cyflymder yn Llanfaglan a Saron ond nad oes cyflymder ar Lôn Pant.

Gofynnwyd pam fod y ffordd ger Cwm y Glo, Llanberis wedi ei gyfyngu i 40 mya . Y rheswm am hyn yw fod nifer o ddamweiniau wedi bod yno sydd wedi arwain at gau'r ffordd, a does dim llwybr arall addas.

Ni fyddai'n amhosibl gosod cyfyngiad ar Lôn Pant, ond fyddai hyn ddim yn 30 mya, oherwydd Canllawiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai angen asesu cyfartaledd y cyflymder yn gyntaf. Os mai 38/39 oedd y cyfartaledd fyddai yna ddim pwrpas gosod cyfyngiad o 40 mya oherwydd byddai pobl yn debygol o yrru tuag at y cyflymder hwnnw.

Dywedodd y SCCH Ashley Jones fod Go Safe wedi bod yn mesur cyflymder yn Llanfaglan a Saron, ond anodd yw eu cael i fynd i lecyn gyda chyfyngiad cyffredinol o 60 mya.

Mae'n bosibl y byddai Go Safe yn fodlon rhoi matiau ar y ffordd er mwyn mesur cyfartaledd cyflymder yn Lôn Pant, a bydd SCCH Ashley Jones yn gofyn i Go Safe fonitro cyflymder yn Lôn Pant gyda'u camera hefyd.

Eglurodd Dylan Wynn Jones mai un opsiwn fyddai gosod arwyddion a marciau ffyrdd i leihau cyflymder y traffig ar Lôn Pant.

1. YMDDIHEURIADAU

Gwyneth Thomas, Math Williams, Emyr Williams, Dafydd Iwan, Peter Garlick, Cadi Sion

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Erddyn Davies fuddiant personol yn Eitem 5.8 gan ei fod yn Gadeirydd Clwb Pêl Droed Bontnewydd. Gadawodd yr ystafell tra fod y rhodd i'r Clwb Pêl Droed yn cael ei drafod.

Datganodd y Cynghorydd Ifor Dylan Williams fuddiant personol yn Eitem 5.8 gan fod ei wraig yn ymwneud â Canolfan Bro Llanwnda. Gadawodd yr ystafell tra fod y rhodd i Ganolfan Bro Llanwnda yn cael ei drafod.

Datganodd y Cynghorydd Wynn Roberts fuddiant personol yn Eitem 5.8 Hwyl y Bont. Gan fod ei wraig yn aelod o Bwyllgor Hwyl y Bont. Gadawodd yr ystafell tra fod y rhodd i Hwyl y Bontyn cael ei drafod.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion Mawrth 2018. Cynnig: Wynn Roberts
Eilio: Mirain Llwyd Owen

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Y Ganolfan, Bontnewydd

Mae Snowdonia Fire Protection wrthi'n gosod system dân newydd. Disgwylir y byddant yn gorffen y gwaith yn fuan.

Roedd Pwyllgor y Ganolfan i lunio Cynllun Tân ar gyfer y Ganolfan erbyn cyfarfod Ebrill. Nid yw hyn wedi digwydd, ac fe bendefynwyd fod angen blaenoriaethu hyn. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn trefnu cyfarfod yn fuan gyda rhai o'r aelodau er mwyn cael y gwaith hwn wedi ei wneud. Cytunodd y Cynghorydd Wynn Roberts i ddanfon Cynllun Tân drafft at y Clerc fel cynsail dechreuol.

O ran gwariant ar eitemau eraill yn y Ganolfan, yna ar hyn o bryd mae'n debyg y bydd y Cyngor Cymuned yn atebol am tua £2,000 o'r gwariant gyda Hwyl y Bont yn cyfrannu'r gweddill o gyfraniad Tesco o £4,000. Bydd angen tua £3,000 am y toiledau, £2,500 am y gegin a £500 ar gyfer nwyddau i'r gegin.

Yn dilyn ymholiadau pellach, mae'n debyg fod y Cyngor Cymuned yn parhau yn Ymddiriedolwr Gwarchodol yn y brydles fel y'i drafftwyd. Does dim angen felly newid y brydles er mwyn newid statws cyfreithiol y pwyllgor chwaith.

Fodd bynng, mae'r darpariaethau gwreiddiol yn y brydles ar gyfer sefydlu'r Pwyllgor wedi dyddio, ganfod disgwyl i gyrff a chymdeithasau lleoll sydd yn awr wedi dirwyn i ben fod yn rhan o'r pwyllgor – e.e. capeli lleol. Mae angen felly diwygio a diweddarau'r cymalau yn y brydles sy'n ymwneud â hyn, a bydd y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt gytuno i ddiwygiad.

4.3 Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Mae Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 yn dod i rym ar 25 Mai.

Disgwylir cyfarwyddyd pellach ar y dyletswydd fydd ar gynghorau cymuned bychan parthed y rhain yn fuan.

4.4 Gweithio gyda Cadw Cymru'n Daclus

Mae'r Clerc wedi cysylltu efo Cadw Cymru'n Daclus, a bydd yn cyfarfod gyda cynrychiolydd y mis nesaf er mwyn trafod sut y gall Cyngor Cymuned Bontnewydd a Cadw Cymru'n Daclus gydweithio er mwyn lleihau'r sbwriel sy'n cael ei ollwng yn y gymuned.

4.5 Biniau Baw Cwn

Mae Cyngor Gwynedd yn codi tua £450 am osod bin baw cwn. Mae hyn yn cynnwys cost y bin a polyn i'w gosod. Bydd y gost ychydig yn rhatach os oes polyn, (nid polyn trydan neu BT), yn bodoli yn barod.

Rhaid lleoli'r biniau mewn llefydd ble maen nhw yn hawdd i'w gwagio. Mae Cyngor Gwynedd yn codi £3.20 am eu gwagio a byddai angen gwagio pob bin o leiaf unwaith yr wythnos a rhai ohonynt ddwywaith yr wythnos.

Penderfynwyd fod y gost o osod a gwagio'r biniau baw cwn yn ormodol ac felly fe gytunwyd beidio â gofyn i Gyngor Gwynedd osod biniau.

4.6 Clwb Ieuenctid Bontnewydd

Cafodd y Clerc sgwrs efo trefnydd Clwb Ieuenctid Bontnewydd. Mae'n cosito tua £2,700 y flwyddyn i redeg y Clwb – sef costau staff yn bennaf.

Mae'r niferoedd plant sydd yn mynychu yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r clwb yn talu am weithgareddau e.e. triplau drwy godi arian eu hunain.

Pe byddai gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb mewn parhau i gynnal y Clwb, yna byddai'n rhaid edrych am swm o tua £2,700 yn flynyddol, ond byddai'r Clwb yn fodlon ymdrechu i godi arian yn flynyddol er mwyn lleihau'r baich ar y Cyngor Cymuned.

Y farn oedd nad oedd gan y Cyngor Cymuned y gallu ariannol i glustnodi £2,700 yn flynyddol tuag at Glwb leuenctid.

Ystyriwyd mai opsiwn arall fyddai cael cael gwirfoddolwyr i redeg y clwb, e.e. rhieni, gan leihau'r gost o'l gynnal yn sylweddol. Pe byddai galw am redeg y clwb ym Montnewydd o dan y fformat yma, byddai'r Cyngor Cymuned yn cytuno i feddwl sut i gefnogi gwirfoddolwyr o'r fath yn ariannol, ac fel arall.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mawrth 2018

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis

Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau postio £1.68

5.3 Anfoneb Wyn Williams Rhif 1731, Tachwedd 2017 i Mawrth 2018 £258.00

5.4 123 Reg – y We £13.19, ad-dalu'r Clerc

5.5 Taliad cynnal a chadw Clwb Pêl Droed Bontnewydd 2017-18 £825

5.5 Balans yn y Banc 1 Ebrill 2018 £12,740.66

5.6 Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol 2016-17. Cymeradwyd ac fe lofnododd y Cadeirydd Ffurflen Flynyddol 2016-17.

5.7 Monitro'r Gyllideb.

Cafwyd trafodaeth ar y gyllideb a'r sefyllfa ariannol presennol, yn dilyn papur a baratodd y Clerc yn crynhoi'r gwariant am y flwyddyn. Bu cryn wariant ar y Ganolfan dros y flwyddyn ddiwethaf, a rhaid cadw llygad ar y gwariant ar y Ganolfan yn y dyfodol mewn perthynas â'r gyllideb.

Mae'r sefyllfa ariannol yn gymharol iach, ond mae hynny oherwydd gwario gofalus dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf sydd wedi golygu cario drosodd swm na chafodd ei wario. Os y gwerir symiau mawr yn ystod y flwyddyn sy'n dod yna fydd yna ddim arian dros ben i ddibynnu arno am daliadau annisgwyl.

Rhaid pwysleisio mai gweddol gyfyngedig yw'r arian sydd dros ben wrth ysytyried y Praesept presennol o £16,500, oherwydd mae costau gweinyddol penodol nas gellir eu hosgoi yn atebol i'r rhan fwyaf o'r swm. Yn ogystal, mae yna gostau gweinyddol ychwanegol bronbob blwyddyn, e.e. cost newydd o gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer 2018/19

5.8 Rhoddion 2018/19

Cytunwyd i dalu'r Rhoddion canlynol:-

- Ysgol Gynradd Bontnewydd £250
 - Clwb Pêl Droed Bontnewydd £300
 - Cylch Meithrin Bontnewydd £500
 - Eisteddfod Ieuenctid Bontnewydd £150
 - Papur Bro Lleu £50
 - Hwyl y Bont £350
 - Canolfan Bro Llanwnda £50
 - Cymdeithas Lenyddol Bontnewydd £50
- Cyfanswm £1,700

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7. GOHEBIAETH

- Cyfarfod Cyhoeddus Clybiau Ieuenctid Gwynedd, Sadwrn 7 Ebrill

.Derbyniwyd er gwybodaeth

8. MATERION ERAILL

8.1 Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru

Bydd y Clerc yn mynychu cyfarfod ar 9 Mai yn Llandudno fydd yn rhoi cyfarwyddyd pellach ar y mater yma.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

3 Mai 2018 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

